



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Ymchwiliad gorfodi safonau: Adroddiad a hysbysiad penderfynu terfynol

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag adran 73 ac adran 74 Mesur y
Gymraeg (Cymru) 2011

Cynhaliwyd yr ymchwiliad i amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â safonau a
bennir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 71 ac Atodlen 10 Mesur y
Gymraeg (Cymru) 2011

Gweinidogion Cymru

Rhif achos: CS1059

Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn trwy ddwyn sylw at y ffaith fod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, trwy osod safonau ar sefydliadau, a thrwy reoleiddio cydymffurfiaeth â Mesur y Gymraeg. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Manylion cyswllt

- Ffôn: 0345 6033 221
- E-bost: post@comisiynyddygyymraeg.cymru
- Gwefan: comisiynyddygyymraeg.cymru
- Post: Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT



Cyd-destun deddfwriaethol

Rhan 4 Mesur y Gymraeg

- i. Mae Rhan 4 Mesur y Gymraeg yn gosod fframwaith cyfreithiol er mwyn gosod dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Gelwir sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau yn 'bersonau perthnasol'. Ceir safonau yn y meysydd canlynol:
 - cyflenwi gwasanaethau;
 - llunio polisi;
 - gweithredu;
 - hybu;
 - cadw cofnodion.
- ii. Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau'n golygu bod rhaid i bersonau perthnasol beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylent hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.
- iii. Mae hysbysiadau cydymffurfio a roddir i bersonau perthnasol gan y Comisiynydd dan Ran 4 Mesur y Gymraeg yn pennu'r safonau penodol y mae'n ofynnol cydymffurfio â hwy, ynghyd â'r diwrnodau oddi ar bryd y mae'n ofynnol cydymffurfio â'r safonau hynny neu gydymffurfio â'r safonau hynny mewn modd penodol ('diwrnodau gosod'). Bydd copïau ar wefan y Comisiynydd o'r hysbysiadau cydymffurfio sydd mewn grym.
- iv. Tra bydd hysbysiad cydymffurfio sy'n benodol i berson perthnasol mewn grym, bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r safonau a bennwyd ynddo.

Rhan 5 Mesur y Gymraeg

- v. Mae Rhan 5 Mesur y Gymraeg yn rhoi swyddogaethau rheoleiddiol statudol i'r Comisiynydd er mwyn sicrhau bod personau perthnasol yn cydymffurfio â'u dyletswyddau. Gall dyletswyddau gynnwys cydymffurfio â safonau'r Gymraeg (fel y nodir uchod), ac hefyd ofyniadau a osodir ar bersonau gan y Comisiynydd yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg yn sgil methiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol. Mae Polisi Gorfodi'r Comisiynydd yn rhoi cyngor a gwybodaeth ynghylch sut y bydd y Comisiynydd yn arfer y swyddogaethau rheoleiddiol hynny.
- vi. Y swyddogaethau rheoleiddiol sy'n deillio o Ran 5 Mesur y Gymraeg yw:
- ystyried ai i ymchwilio ai peidio os gwneir cwynion ynghylch ymddygiad personau perthnasol;
 - ymchwilio i amheuon o fethiant gan bersonau perthnasol i gydymffurfio â dyletswyddau, dyfarnu ar ymchwiliadau a llunio adroddiadau ar ymchwiliadau;
 - ystyried ai i weithredu ymhellach (drwy roi argymhellion neu gyngor) ai peidio os yw ymchwiliad yn canfod na fu methiant i gydymffurfio;
 - cymryd un o'r tri cham isod os yw ymchwiliad yn canfod y bu methiant i gydymffurfio:
 - peidio â gweithredu ymhellach;
 - gwneud un neu fwy o'r pethau a ganlyn:
 - ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol baratoi cynllun gweithredu at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd;
 - ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol gymryd camau at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd;
 - rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant y person perthnasol i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol;
 - ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol;
 - gosod cosb sifil ar y person perthnasol.
 - gwneud un neu fwy o'r pethau a ganlyn:
 - rhoi argymhellion i'r person perthnasol neu i unrhyw berson arall;
 - rhoi cyngor i'r person perthnasol neu i unrhyw berson arall;
 - ceisio ymrwymo mewn cytundeb setlo gyda'r person perthnasol.
 - gwneud ceisiadau i lys sirol am orchmynion llys i orfodi cydymffurfiaeth;
 - cydymffurfio â dyletswyddau sy'n deillio o apelau i Dribiwnlys y Gymraeg a cheisiadau am adolygiadau gan y Tribiwnlys;
 - llunio dogfen polisi gorfodi;
 - creu a chynnal cofrestr camau gorfodi.
- vii. Bydd y Comisiynydd yn dilyn y prosesau statudol gofynnol wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddiol.
- viii. Mae Polisi Gorfodi'r Comisiynydd yn cynnwys gwybodaeth lawn ynghylch y ffordd y bydd y Comisiynydd yn arfer ei swyddogaethau rheoleiddiol dan Ran 5 Mesur y Gymraeg.

Cynnwys

1	Cylch gorchwyl	1
2	Y dystiolaeth a gymerwyd yn ystod yr ymchwiliad	3
3	Cydymffurfiaeth â safon 4: Asesiad, canfyddiadau a dyfarniad	9
	Hysbysiad penderfynu	13

1 Cylch gorchwyl

Amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg

- 1.1 Ar 27/09/2022 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys.
- 1.2 Cysylltodd yr achwynydd gyda mi ar ôl derbyn arolwg gan Drafnidiaeth Cymru. Roedd yr arolwg yn Gymraeg ond roedd yr e-bost yn Saesneg yn unig. Wrth gadarnhau cyfrifoldeb am y mater fe esboniodd y sefydliad bod arolygon yn cael eu hanfon at unigolion yn eu dewis iaith. Mae'r gŵyn yn creu amheuaeth bod gohebiaeth megis arolygon a chylchlythyrau yn cael eu hanfon yn Saesneg at nifer o bobl heb anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd.

Cadarnhau cyfrifoldeb am y gwasanaeth perthnasol

- 1.3 Ysgrifennodd fy swyddogion at Weinidogion Cymru ar 30/09/2022 er mwyn cadarnhau ai Gweinidogion Cymru oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth y cwynwyd amdano.
- 1.4 Cadarnhaodd y sefydliad eu bod yn gyfrifol am y mater dan sylw ond roedd y wybodaeth gyflwynwyd yn codi cwestiynau pellach am ddealltwriaeth y sefydliad o ofynion safon 4. Mae'n ymddangos o ymateb Trafnidiaeth Cymru eu bod yn defnyddio dewis iaith derbynwyr pan yn anfon gohebiaeth sy'n cael ei anfon at nifer o bobl yn hytrach nag ar gyfer gohebiaeth unigryw.

Safonau perthnasol

- 1.5 Mae Gweinidogion Cymru dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safon isod, ac roedd dan ddyletswydd i wneud hynny ar y dyddiad sy'n berthnasol i'r gŵyn:

Safon 4

Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, rhaid ichi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni.

Rhaid cydymffurfio â safon 4 ymhob amgylchiad, ac eithrio:

- pan fo'r personau wedi eu lleoli tu allan i Gymru yn unig.

Rhaid cydymffurfio efo'r safon hon mewn perthynas â gwasanaeth gwybodaeth i deithwyr rheilffyrdd erbyn 1 Ebrill 2022.

Diwrnod gosod: 30/03/2016

Penderfyniad i ymchwilio

- 1.6 Ar sail yr uchod, penderfynais gynnal ymchwiliad dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn penderfynu a fu methiant gan Weinidogion Cymru i gydymffurfio â'r safon a nodwyd. Rhoddais hysbysiad o'r penderfyniad i ymchwilio, ac o'r cylch gorchwyl arfaethedig, i Weinidogion Cymru ar 24/11/2022.
- 1.7 Rhoddais hysbysiad o gylch gorchwyl terfynol yr ymchwiliad i Weinidogion Cymru ar 16/12/2022. Gellir gweld y cylch gorchwyl terfynol fel atodiad i'r adroddiad hwn.

2 Y dystiolaeth a gymerwyd yn ystod yr ymchwiliad

Hysbysiad tystiolaeth

- 2.1 Ar 16/12/2022, rhoddais hysbysiad tystiolaeth i Weinidogion Cymru. Roedd yr hysbysiad tystiolaeth yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu'r dystiolaeth ganlynol:

Gwybodaeth a dogfennau

1. Wrth gadarnhau cyfrifoldeb am y gŵyn fe wnaethoch esbonio eich bod yn anfon yr arolwg Sgwrs yn seiliedig ar ddewis iaith unigolion.
 - (a) A yw hyn yn parhau i fod yn gywir?
 - (b) A wnewch chi gadarnhau sawl person sy'n derbyn copi o'r arolwg yma ac ym mha iaith y mae'r arolwg yn cael ei anfon atynt?
2. A yw gohebiaeth eraill sy'n cael ei anfon i nifer o bobl ar yr un pryd, er enghraifft, cylchlythyr Trafnidiaeth Cymru yn cael ei anfon yn ddwyieithog? Os nad yw'n cael ei anfon yn ddwyieithog a wnewch chi esbonio sut rydych chi'n penderfynu ym mha iaith i anfon cylchlythyrau a gohebiaeth eraill sy'n cael eu hanfon at nifer o bobl ar yr un pryd?
3. Darparwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol yr ydych am i'r Comisiynydd ei ystyried wrth ddyfarnu ar eich cydymffurfiaeth â'r gofynion yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad.
4. Darparwch gopi o unrhyw bolisi, gweithdrefn, canllaw neu ddogfen arall yr ydych am i'r Comisiynydd ei ystyried wrth ddyfarnu ar eich cydymffurfiaeth â'r gofynion yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad.

- 2.2 Mewn ymateb, derbyniais dystiolaeth gan Weinidogion Cymru ar 13/02/2023.
- 2.3 Ystyriais yr holl wybodaeth a gyflwynwyd mewn ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth.



Y dystiolaeth a dderbyniwyd

- 2.4 Pan ofynnwyd i Weinidogion Cymru am fwy o wybodaeth am y modd maent yn anfon yr arolwg Sgwrs yn seiliedig ar ddewis iaith unigolion fe esboniodd y sefydliad fwy am bwrsas yr arolwg. Fe wnaethant esbonio bod adborth gan cwsmeriaid yn bwysig i Drafnidiaeth Cymru ac yn eu galluogi i ddysgu am yr hyn maent yn ei wneud yn dda a lle gallant wella. Maent yn gwneud hyn drwy ddefnyddio arolygon ar-lein, fforymau sgwrsio a sesiynau rhyngweithiol.
- 2.5 Fe esboniodd y sefydliad bod Sgwrs wedi ei ddatblygu yn ystod 2021 gyda'r nod o recriwtio o leiaf 1,000 o bobl, gan gynnwys cymysgedd o gwsmeriaid Trafnidiaeth Cymru a phobl oedd ddim yn gwsmeriaid. Fe wnaethant esbonio eu bod yn cymharu

rhaniadau demograffig y panel yn erbyn y Cyfrifiad i sicrhau bod sampl gynrychioliadol. Yn ôl yr ymateb dderbyniwyd, mae 27 o aelodau sydd wedi gwneud cais i dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg ac sy'n derbyn cynnwys Cymraeg.

- 2.6 Fe esbonnir hefyd bod Trafnidiaeth Cymru wrthi'n datblygu cylchlythyr panel fydd yn esbonio wrth aelodau'r panel sut y defnyddiwyd eu gwaith ymchwil wrth ddatblygu Trafnidiaeth Cymru, yn ogystal â rhannu newyddion ac unrhyw ddiweddariadau cymunedol eraill.
- 2.7 Yn ôl yr ymateb dderbyniwyd, ers lansio Sgwrs fe gynhaliwyd 12 arolwg, 17 arolwg a 13 fforwm.
- 2.8 Wrth ymateb, fe esboniodd Gweinidogion Cymru bod pob gweithgaredd ymchwil yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg. Ar gyfer pob arolwg, maent yn anfon gwahoddiad e-bost yn newis iaith yr aelod o'r panel, gyda dolen i'r arolwg yn yr iaith honno ac fe anfonir e-byst atgoffa yn y ddwy iaith.
- 2.9 Darparodd Gweinidogion Cymru y sgrinluniau canlynol:

Share your views for the chance to win up to £100 in Love 2 Shop vouchers

 Sgwrs <info@sgwrs.tfw.wales>
To 

[If there are problems with how this message is displayed, click here to view it in a web browser.](#)



Sgwrs

New activities available on the panel

Thanks to all those who have taken part in the recent activities on the panel. Your feedback is always gratefully received.

There are some **new polls and a discussion on the panel about the environment** which we'd love you to take part in.



Log in now to get involved: [panel](#)


If you complete this research activity, you'll automatically be entered into our monthly prize draw and will be in with the chance of winning Love 2 Shop high street vouchers. There are 3 vouchers up for grabs each month: 1 x £100 voucher and 2 x £50 runner up vouchers.

Thanks,
The Sgwrs Team

Like to know more about Sgwrs? Email us at info@sgwrs.tfw.wales

Rhannwch eich barn a chewch gyfle i ennill hyd at £100 mewn talebau Love 2 Shop

 Sgwr's <info@sgwrs.tfw.wales>
To 

 If there are problems with how this message is displayed, click here to view it in a web browser.

External (info@sgwrs.tfw.wales)



Sgwr's

Gweithgareddau newydd ar gael ar y panel

Diolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau diweddar ar y panel. Mae eich adroddion yn werthfawr bob amser.

Mae yna **bleidleisiau newydd a thrafodaeth ar y panel ynghylch yr amgylchedd** – hoffem yn fawr i chi gymryd rhan ynddyn nhw.

I gymryd rhan: [panel](#)

Os byddwch yn cwblhau'r gweithgaredd ymchwil hwn, cewch eich ychwanegu'n awtomatig i'n raffi fawr fisol a gyda chyfle i ennill talebau stryd fawr Love 2 Shop. Mae yna 3 taleb ar gael bob mis: **1 taleb x £ 100 taleb a 2 daleb x £ 50 taleb i'r rheini a ddaw yn ail.**

Diolch yn fawr
Tim Sgwr's

Hoffech chi wybod mwy am Sgwr's? E-bostiwch ni ar: info@sgwrs.tfw.wales

2.10 Fe esbonnir bod arolygon barn yn ymddangos ar frig hafan Sgwr's yn newis iaith yr aelod. Mae fforymau yn ymddangos ar y platfform yn Gymraeg a Saesneg, a gall yr aelodau ddewis pa fforwm maen nhw am gyfrannu iddo ar sail eu dewis iaith.


2.11 Darparodd Gweinidogion Cymru enghraifft o rai sydd yn 'fyw' ar hyn o bryd, yn ogystal â geiriad sy'n amlygu bod fforymau ar gael yn y ddwy iaith:


Forum


This is a space for you to share your opinions and take part in discussions with other members. We'll start new discussions from time-to-time, so please join in to see what other Sgwr's members have to say.

We provide our research activities in both English and Welsh so our panel members can speak to us in the language which suits them best. Please contribute to the forums in the language channel you prefer.

Our discussions are all about sharing and learning from each other. Everyone has different thoughts and opinions so let's work together, be polite, respectful and help make some important decisions. Remember, everyone's views are important.

Test Forum 2022
Test new layout for forums 

Active Travel / Teithio Llesol
What modes of transport do you usually use for your local journeys?
What would encourage you to choose to walk, wheel or cycle rather than drive? What do you think prevents more people from walking, wheeling or cycling more in your local area? What do you think Transport for Wales could do to increase walking, wheeling and cycling in your area?
Pa ddulliau trafniadaeth ydych chi'n eu defnyddio fel arfer ar gyfer eich siwrneiau lleol?
Beth fyddai'n eich annog i ddewis cerdded, olwynio neu feicio yn hytrach na gyrru? Yn eich barn chi, beth sy'n rhwystro mwy o bobl rhag cerdded, olwynio neu feicio mwy yn eich ardal leol? Yn eich barn chi, beth allai Trafnidiaeth Cymru ei wneud i sicrhau mwy o gerdded, olwynio a beicio yn eich ardal chi? 

Environment / Yr Amgylchedd
With the government looking to significantly reduce the UK's carbon footprint in the near future, what do you think is the biggest challenge to making train journeys more sustainable? 

Gan fod y llywodraeth yn gobeithio lleihau ôl troed carbon y Deyrnas Unedig yn sylweddol yn y dyfodol agos, beth, yn eich barn chi, yw'r her fwyaf o ran gwneud siwrneiau trên yn fwy cynalladwy?

Golwg estynedig:

The screenshot shows a Microsoft Teams chat window. At the top, there is a poll question in English: "With the government looking to significantly reduce the UK's carbon footprint in the near future, what do you think is the biggest challenge to making train journeys more sustainable?". Below this, the same question is repeated in Welsh: "Gan fod y llywodraeth yn gobeithio lleihau ôl troed carbon y Deyrnas Unedig yn sylweddol yn y dyfodol agos, beth, yn eich barn chi, yw'r her fwyaf o ran gwneud siwrneiau trên yn fwy cynaliadwy?".

Below the text is a text input field with the placeholder "Write a title...". Underneath is a rich text editor with a toolbar containing bold (B), italic (I), underline (U), paragraph (Paragraph), bulleted list, numbered list, link, and unlink icons. Below the editor is another text input field with the placeholder "Write a description...". To the right of the editor is a red "Post" button.

Below the input fields, there are two poll options:

- Environment** (ENG icon): 59 posts, 16 replies. Action buttons: Enter, Edit, Delete, Hide content.
- Yr Amgylchedd** (CYM icon): 1 post, 0 replies. Action buttons: Enter, Edit, Delete, Hide content.

2.12 Fe esbonnir bod holl e-byst a chylchlythyrau yn cael eu hanfon yn Gymraeg a Saesneg ar sail y dewis iaith y mae aelodau'r panel yn ei gadarnhau pan fyddant yn cofrestru. Mae'r rhai sydd â'r parth Cymraeg yn gweld yr holl gynnwys Cymraeg ar safle'r panel ac mewn unrhyw e-byst/cylchlythyrau a anfonir.

The screenshot shows an Outlook email client window. The title bar reads "Share your views in our new survey - Message (HTML) (Read-Only)". The ribbon includes "File", "Message", and "Help". The "Message" ribbon has various actions like Ignore, Delete, Archive, Reply, Reply All, Forward, Share to Teams, etc.

The email content starts with a yellow warning bar: "Caution: External (info@sgwrs.tfw.wales) Spam Content Details". Below this is a redacted sender name and the email address "Sgwrs <info@sgwrs.tfw.wales>".

The main body of the email is in Welsh:

Share your views in our new survey

HI FIRSTNAMEHERE,


Thank you for taking the time to complete this survey.

In this survey we would like to understand your views on journeys you may make at short notice and the reasons and motivations for this.

The survey will take 10 minutes to complete.

Start the survey

The bottom of the screenshot shows the Windows taskbar with the search bar, taskbar icons, and system tray showing the time as 08:47 on 06/10/2022.



2.13 Gofynnwyd i Weinidogion Cymru a yw gohebiaeth eraill sy'n cael ei anfon i nifer o bobl, er enghraifft, cylchlythyr Trafnidiaeth Cymru yn cael ei anfon yn ddwyieithog. Gofynnwyd iddynt hefyd i esbonio sut maent yn penderfynu ym mha iaith i anfon cylchlythyrau a gohebiaeth eraill sy'n cael eu hanfon at nifer o bobl.

2.14 Fel ymateb i'r cwestiwn yma fel ymatebodd Gweinidogion Cymru bod pob cylchlythyr yn cael ei anfon yn ddwyieithog gan Trafnidiaeth Cymru gan gynnwys y canlynol:

- Cyhoeddir pob poster, taflen ac amserlenni yn ddwyieithog boed hynny wedi'i argraffu neu'n electronig.
- Cylchlythyr rhanddeiliaid – cynhyrchir a chyhoeddir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar yr un pryd lle y gall derbynwyr ddad-danysgrifio ar unrhyw adeg i'r naill ddewis iaith neu'r llall.
- Llythyrau i gymdogion agos strwythurau Trafnidiaeth Cymru yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog bob tro, fel y mae cylchlythyrau printiedig penodol i'r rhanbarth.
- Cynhyrchir neges e-bost Gwirio Taith (darllediad) yn y Gymraeg ac yna'r Saesneg (gweler y sgrin isod)
- Gyda CRM yn postio / Cylchlythyr, anfonir copi o'r fersiwn Saesneg i'r bobl sydd wedi nodi eu bod am i'r Saesneg yn unig a'r fersiwn Gymraeg i'r rhai sydd wedi nodi'r Gymraeg yn unig. Yna fe esbonnir eu bod yn anfon dyblygiad at unrhyw ddewis 'arall' ac mae yn cynnwys ddolen ar yr e-bost yn gofyn i bobl nodi eu dewis iaith.

2.15 Fe esboniodd Gweinidogion Cymru bod Trafnidiaeth Cymru yn mynd i ddechrau anfon nodyn atgoffa e-bost awtomataidd i'r rhai sy'n cael eu cofnodi ar hyn o bryd fel mae eu dewis iaith yw 'arall' neu 'ddim yn cael eu hadnabod' er mwyn eu hannog i ddewis eu dewis yn ystod mis Ionawr. Mae hyn yn ychwanegol at y ddolen ar yr holl e-byst sydd eisoes yn cael eu hanfon allan. Fe esboniodd Gweinidogion Cymru eu

bod yn siŵr y bydd hynny yn arwain at sicrhau y bydd unigolion yn derbyn gohebiaeth yn eu dewis iaith.

Sender	Device	Sent Time	Scheduled Send Time	Subject	Filter	Cancel
AW-sstartorius	EMAIL	09/12/2022 15:09:24	09/12/2022 15:00:00	Gwirirch cyn teithio, Newidiadau i'r amserlen Check your journey before you travel. Timetable changes	<input checked="" type="checkbox"/>	-
AW-sstartorius	EMAIL	18/11/2022 14:35:00	18/11/2022 14:35:00	Gorsaf yr Hôb Hope station	<input checked="" type="checkbox"/>	-
AW-sstartorius	EMAIL	18/11/2022 14:30:00	18/11/2022 14:30:00	Gorsaf yr Hôb Hope station	<input checked="" type="checkbox"/>	-
AW-sstartorius	EMAIL	01/11/2022 17:08:58	01/11/2022 17:00:00	Gweithredu diwydiannol, peidwch â theithio ar y trŵn Industrial action, do not travel by train	<input checked="" type="checkbox"/>	-
AW-sstartorius	EMAIL	21/10/2022 17:00:02	21/10/2022 17:00:00	Newidiadau i wasanaethau Service changes Corylton – Caerdydd Canolog	<input checked="" type="checkbox"/>	-
AW-sstartorius	EMAIL	14/10/2022 17:41:00	14/10/2022 17:40:00	Bysiau yn lle trenau Er mwyn gwneud gwelliannau hanfodol Buses replace trains Due to essential improvement	<input checked="" type="checkbox"/>	-
AW-sstartorius	EMAIL	14/10/2022 17:31:37	14/10/2022 17:30:00	Bysiau yn lle trenau Er mwyn gwneud gwelliannau hanfodol Buses replace trains Due to essential improvement	<input checked="" type="checkbox"/>	-
AW-sstartorius	EMAIL	07/10/2022 10:45:13	07/10/2022 10:45:00	Cyfhewidia Trafnidiaeth Gyhoeddus newydd i Gaerffili New public Transport interchange for Caerphilly	<input checked="" type="checkbox"/>	-
AW-sstartorius	EMAIL	07/10/2022 10:40:24	07/10/2022 10:40:00	Cyfhewidia Trafnidiaeth Gyhoeddus newydd i Gaerffili New public Transport interchange for Caerphilly.	<input checked="" type="checkbox"/>	-
AW-sstartorius	EMAIL	04/10/2022 18:20:10	04/10/2022 18:20:00	Newidiadau i wasanaethau Service changes	<input checked="" type="checkbox"/>	-

Page 1 of 21 | Displaying Messages 1 - 10 of 208

Message

Subject: Gwirirch cyn teithio, Newidiadau i'r amserlen | Check your journey before you travel. Timetable changes

Gwirirch cyn teithio

Newidiadau i'r amserlen
Bydd amserleni newydd yn weithredol o ddydd Sul 11 Rhagfyr. Gwirirch cyn teithio am unrhyw newidiadau i amseroedd trenau, platfformau a chysylltiadau â threnau eraill.

Gweithredu diwydiannol arfaethedig
Tarfu disgwyliedig: 12 Rhagfyr - 08 Ionawr. Yn gywir ar adeg cyhoeddi, yn amodol ar newid.

Llawrwythwch [app](#), [iDC](#) neu [ewch i iDC.cymru](#)

Check your journey before you travel

Timetable changes
New timetables start from Sunday 11 December, please check journey plans before you travel for any changes to train times, platforms and connections with other trains.

Planned industrial action
Expect disruption: 12 December - 08 January. Correct at the time of publishing, subject to change.

2.4

3 Cydymffurfiaeth â safon 4: Asesiad, canfyddiadau a dyfarniad

Geiriad y safon

- 3.1 Dyma'r safon fel y mae'n ymddangos yn yr hysbysiad cydymffurfio a roddwyd i Weinidogion Cymru:

Safon 4

Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, rhaid ichi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni.

Rhaid cydymffurfio â safon 4 ymhob amgylchiad, ac eithrio:

- pan fo'r personau wedi eu lleoli tu allan i Gymru yn unig.

Rhaid cydymffurfio efo'r safon hon mewn perthynas â gwasanaeth gwybodaeth i deithwyr rheilffyrdd erbyn 1 Ebrill 2022.

Diwrnod gosod: 30/03/2016

Dehongliadau

- 3.2 Mae Cod Ymarfer y Comisiynydd ar Reoliadau Rhif 1 yn nodi'r canlynol am safon 4:

4.1.15. Os yw corff yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, rhaid iddo anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth honno. Rhaid i'r corff sicrhau hefyd bod y fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth yn cael ei hanfon ar yr un pryd ag y mae'n anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni.

4.1.16. Mae'r safon hon yn berthnasol i achosion lle mae'r un ohebiaeth yn cael ei hanfon at sawl person. Gall hyn gynnwys pan fydd corff yn anfon yr un cylchlythyr, e-gylchlythyr, newyddlen, e-bost, neges testun neu lythyr at nifer o gartrefi neu bersonau.

4.1.17. Yn wahanol i safonau 2 a 3, sy'n ymdrin â gohebiaeth sydd wedi'i chyfeirio at un neu ddau unigolyn penodol yn unig, mae safon 4 yn ymdrin â gohebiaeth safonol sy'n berthnasol i sawl person. Nid yw'r safon hon yn berthnasol i ohebiaeth sy'n cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i theilwra neu ei phersonoli yn unigol (y tu hwnt i fanylion cyffredinol fel eu henw neu gyfeiriad). Dylai corff drin y math yma o ohebiaeth ar wahân i'r math o ohebiaeth a gaiff ei hanfon yn unol â safonau 2 a 3.

4.1.18. Felly, os yw corff yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, nid yw ateb unigolyn ynghylch ei ddymuniad i gael gohebiaeth yn Gymraeg yn unol â safonau 2 a 3 yn effeithio ar ddyletswydd corff i anfon gohebiaeth at yr unigolyn hwnnw yn Gymraeg yn unol â safon 4.

Gofynion y safon

- 2.5 Os yw corff yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, rhaid i'r corff anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag unrhyw fersiwn Saesneg ohoni, beth bynnag fo dewis iaith y cwsmeriaid.

Ystyried cydymffurfiaeth â'r safon

- 3.3 Cysylltodd yr achwynydd gyda mi ar ôl iddo dderbyn gohebiaeth yn Saesneg yn unig fel rhan o'r cynllun Sgwrs. Fe wnaeth ymateb Gweinidogion Cymru i'r gŵyn yma greu amheuaeth bod gohebiaeth yn cael ei anfon at nifer o bersonau yr un pryd yn Saesneg yn unig.
- 3.4 Mae ymateb y sefydliad i'r hysbysiad tystiolaeth wedi cadarnhau bod Trafnidiaeth Cymru yn anfon gohebiaeth yn Saesneg yn unig at nifer o bobl. Cadarnhawyd bod hynny yn digwydd gyda gohebiaeth am y panel Sgwrs ac fe eglurwyd bod Cylchlythyr cyffredinol Trafnidiaeth Cymru hefyd yn cael ei anfon yn newis iaith derbynwyr.
- 3.5 Gan bod yr ohebiaeth yma yn cael ei anfon at nifer o bobl, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru anfon yr ohebiaeth yn Gymraeg pan anfonir y fersiwn Saesneg. Nid yw dewis iaith unigolion yn berthnasol pan anfonir yr ohebiaeth at nifer o bersonau.
- 3.6 Rwy'n cydnabod bod Gweinidogion Cymru wedi ceisio cymryd camau i gydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg drwy geisio sefydlu dewis iaith yr unigolion sy'n derbyn cylchlythrau a gohebiaeth eraill a anfonir at nifer o bobl. Fodd bynnag, dim ond mewn achosion ble mae gohebiaeth yn cael ei deilwra i unigolion (ymhellach na dim ond enw neu gyfeiriad) y mae dewis iaith y derbynnydd yn berthnasol.
- 3.7 O dan ofynion y safon, mae disgwyl bod cylchlythrau a gohebiaeth eraill sy'n cael ei anfon at nifer o bobl yn cael ei anfon yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg fel mater o drefn. Mae hyn yn gwneud y Gymraeg yn fwy gweladwy ac yn sicrhau bod dysgwyr neu unigolion nad ydynt yn hyderus yn eu Gymraeg yn cael y cyfle i ddarllen y fersiwn Gymraeg.
- 3.8 Er mwyn cydymffurfio gyda safon 4, mae angen sicrhau bod fersiwn Gymraeg o ohebiaeth yn cael ei anfon yr un pryd â fersiwn Saesneg, unai fel rhan o'r un ohebiaeth neu fel fersiwn ar wahân. Ni ddylai unrhyw ohebiaeth sy'n cael ei anfon at nifer o bobl gael ei anfon yn Saesneg yn unig.
- 3.9 Wrth gyflwyno tystiolaeth mewn ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth, fe gadarnhaodd Gweinidogion Cymru bod cylchlythyr cyffredinol Trafnidiaeth Cymraeg a gohebiaeth yn ymwneud â'r panel Sgwrs yn cael eu hanfon yn newis iaith y derbynnydd yn unig, er eu bod yn ohebiaeth nad ydynt wedi eu teilwra y tu hwnt i enw.
- 3.10 Mae'n ymddangos o'r dystiolaeth dderbyniwyd bod Gweinidogion Cymru o'r farn nad oes angen i Trafnidiaeth Cymru anfon gohebiaeth yn Gymraeg os mai Saesneg yw dewis iaith y derbynnydd, hyd yn oed os yw'r ohebiaeth yn cael ei anfon at nifer o bobl yr un pryd.

3.11 Mae Cod Ymarfer y Comisiynydd ar Reoliadau'r Gymraeg (Rhif 1) yn egluro fel a ganlyn:

4.1.18. Felly, os yw corff yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, nid yw ateb unigolyn ynghylch ei ddymuniad i gael gohebiaeth yn Gymraeg yn unol â safonau 2 a 3 yn effeithio ar ddyletswydd corff i anfon gohebiaeth at yr unigolyn hwnnw yn Gymraeg yn unol â safon 4.

3.10 Hyd yn oed os yw unigolyn wedi dewis Saesneg fel iaith i dderbyn gohebiaeth gan Trafnidiaeth Cymru, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru, ac felly Trafnidiaeth Cymru, anfon gohebiaeth sy'n mynd at nifer o bersonau yn Gymraeg hefyd..

3.11 Gan nad yw Trafnidiaeth Cymru yn anfon gohebiaeth sy'n mynd at nifer o bersonau yn Gymraeg, rwyf o'r farn nad yw Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio gyda safon 4.

Canfyddiadau

3.12 Er mwyn cydymffurfio gyda safon 4 mae'n rhaid i Drafnidiaeth Cymru, sy'n gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru, anfon fersiwn Gymraeg o ohebiaeth ar yr un pryd ag unrhyw fersiwn Saesneg ohoni pan maent yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau. Rhaid gwneud hyn beth bynnag fo dewis iaith y cwsmeriaid.

3.13 Yn yr achos yma, fe wnaeth gwybodaeth gyflwynodd Gweinidogion Cymru greu amheuaeth bod Trafnidiaeth Cymru yn anfon gohebiaeth i nifer o bersonau yr un pryd yn Saesneg yn unig. Cadarnhaodd ymateb Gweinidogion Cymru i'r hysbysiad tystiolaeth bod gohebiaeth at y panel ymchwil Sgwrs a chylchlythyr cyffredinol Trafnidiaeth Cymru yn cael eu hanfon yn Saesneg yn unig at nifer o bobl.

3.14 Ar y sail bod Trafnidiaeth Cymru yn anfon gohebiaeth ar nifer o bersonau yn Saesneg yn unig heb anfon y fersiwn Gymraeg yr un pryd, rwyf o'r farn na wnaeth Gweinidogion Cymru gydymffurfio gyda safon 4.

Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â safon 4

3.15 Rwyf yn dyfarnu fod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 4 yn yr achos yma ar y sail bod gohebiaeth sy'n cael ei anfon at nifer o bersonau yn cael ei anfon yn Saesneg yn unig.

Gweithredu pellach

3.16 Mae adran 77 Mesur y Gymraeg yn caniatáu i mi weithredu ymhellach lle bu methiant.

3.17 Yn achos fy nyfarniad fod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 4, byddaf yn gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant i gydymffurfio rhag parhau.

3.18 Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 4: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i sicrhau nad yw unrhyw ohebiaeth mae Trafnidiaeth Cymru yn ei anfon at nifer o bersonau yn cael ei anfon yn Saesneg yn unig. Mae hyn yn cynnwys, (ond heb ei gyfyngu i) gohebiaeth at y panel Sgwrs ac unrhyw gylchlythrau.
2. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod canllawiau gohebiaeth Trafnidiaeth Cymru yn cael eu haddasu i sicrhau bod gofynion safon 4 yn cael eu egluro yn glir i staff.
Rhaid i'r canllawiau egluro'r canlynol :
 - a) Pa fath o ohebiaeth sy'n cael ei ystyried fel gohebiaeth sy'n mynd at 'nifer o bersonau'.
 - b) Na ddylid anfon gohebiaeth sy'n cael ei anfon at nifer o bersonau yn Saesneg yn unig.
3. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i sicrhau eu bod yn tynnu sylw staff perthnasol at y newidiadau i'r canllawiau.
4. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Hysbysiad penderfynu

At: Gweinidogion Cymru

Rhif achos: CS1059

Dyddiad: 27/07/2023

Dyfarniad

Yn sgil derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd, cynhaliais ymchwiliad dan adran 71 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 er mwyn dyfarnu a fu methiant gan Weinidogion Cymru i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau'r Gymraeg y mae dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

Mae'r safonau oedd yn berthnasol i'r ymchwiliad fel a ganlyn:

Safon 4

Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, rhaid ichi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni.

Rhaid cydymffurfio â safon 4 ymhob amgylchiad, ac eithrio:

- pan fo'r personau wedi eu lleoli tu allan i Gymru yn unig.

Rhaid cydymffurfio efo'r safon hon mewn perthynas â gwasanaeth gwybodaeth i deithwyr rheilffyrdd erbyn 1 Ebrill 2022.

Diwrnod gosod: 30/03/2016

Dyfnaf fod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio â safon 4.

Sail fy nyfarniad yw bod gohebiaeth sy'n cael ei anfon at nifer o bersonau yn cael ei anfon yn Saesneg yn unig.

Gweithredu pellach

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach [at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd.

Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 4: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i sicrhau nad yw unrhyw ohebiaeth mae Trafnidiaeth Cymru yn ei anfon at nifer o bersonau yn cael ei anfon yn Saesneg yn unig. Mae hyn yn cynnwys, (ond heb ei gyfyngu i) gohebiaeth at y panel Sgwrs ac unrhyw gylchlythyrau.
2. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod canllawiau gohebiaeth Trafnidiaeth Cymru yn cael eu haddasu i sicrhau bod gofynion safon 4 yn cael eu egluro yn glir i staff. Rhaid i'r canllawiau egluro'r canlynol :
 - a) Pa fath o ohebiaeth sy'n cael ei ystyried fel gohebiaeth sy'n mynd at 'nifer o bersonau'.
 - b) Na ddylid anfon gohebiaeth sy'n cael ei anfon at nifer o bersonau yn Saesneg yn unig.
3. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i sicrhau eu bod yn tynnu sylw staff perthnasol at y newidiadau i'r canllawiau.
4. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Hawl i apelio i Dribiwnlys y Gymraeg

Pan fo'r Comisiynydd wedi dyfarnu na fu methiant i gydymffurfio â safon, gall yr achwynydd apelio i Dribiwnlys y Gymraeg. Pan fo'r Comisiynydd yn wedi dyfarnu bod person wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol, gall y person hwnnw apelio i Dribiwnlys y Gymraeg. Yn ogystal, pan fo'r Comisiynydd wedi penderfynu cymryd camau gorfodi mewn cysylltiad â methiant, gall Gweinidogion Cymru apelio i Dribiwnlys y Gymraeg ar y sail fod y camau gorfodi'n afresymol neu'n anghymesur. Ceir rhagor o wybodaeth am y broses yn y daflen amgaeedig, ac ar wefan y Tribiwnlys.

Canlyniadau peidio cydymffurfio â gofyniad mewn hysbysiad penderfynu

Os yw Gweinidogion Cymru yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad yn yr hysbysiad penderfynu hwn, caiff y Comisiynydd wneud cais i lys sirol am orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio.